# Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | Mae diwygiadau i Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysedd) (Cymru) 2014 yn adlewyrchu newidiadau i hawliau cymhwysedd i dai a chymorth tai i unigolion a oedd yn byw yn Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza neu Ddwyrain Jerwsalem cyn 23 Mehefin 2025 ac a adawodd mewn cysylltiad â'r gwrthdaro rhwng Israel ac Iran a waethygodd ym mis Mehefin 2025. |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm)::** | John Griffiths<br><br>Y Gangen Atal Digartrefedd a Rheoli Tai |
| **Adran:** | Y Grwp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig |
| **Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | Sarah Rhodes |
| **Yr Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog sy'n gyfrifol:** | Jane Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai |
| **Dyddiad Cychwyn:** | Gorffennaf 2025 |

## CYNNWYS

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei wneud a pham? .......... 3

Casgliad .......... 4

Datganiad .......... 6

## Beth mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei wneud a pham?

**Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau gweithredu a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Sut rydych wedi cymhwyso/sut byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau arfaethedig, drwy gydol y polisi a'r cylch cyflawni?**

Mewn ymateb i'r cynnydd yn y gwrthdaro rhwng Israel ac Iran ym mis Mehefin 2025, trefnodd Llywodraeth y DU wacáu dinasyddion Prydeinig ac eraill o Israel a Thiriogaethau Palestina a Feddiannwyd (gan gynnwys y Lan Orllewinol, Llain Gaza a Dwyrain Jerwsalem). Rhwng 23 a 29 Mehefin, cyrhaeddodd chwe awyren y DU yn cludo 428 o unigolion, gan gynnwys 76 o blant a 27 o staff y Groes Goch. Er bod cyfnod brys y gwacáu wedi dod i ben, mae'r sefyllfa yn y rhanbarth yn parhau i fod yn gyfnewidiol.

Er mwyn cefnogi'r rhai sy'n dychwelyd i'r DU, mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y byddai unigolion yr effeithir arnynt gan y gwrthdaro yn cael eu heithrio o'r Prawf Preswylio Arferol (HRT) am gyfnod o chwe mis. Mae'r eithriad hwn yn galluogi mynediad uniongyrchol at fudd-daliadau lles a chymorth tai. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) hefyd yn datgymhwyso y Prawf Presenoldeb yn y Gorffennol (PPT), sydd fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol i berson fod wedi bod ym Mhrydain Fawr am gyfnod penodol cyn bod yn gymwys i gael rhai budd-daliadau.

Er mwyn sicrhau cysondeb rhwng cyfraith tai yng Nghymru a chyfraith lles ledled y DU, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu diwygio Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysedd) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014"). Mae'r rheoliadau hyn yn penderfynu pa bersonau o dramor sy'n gymwys i gael dyraniad o lety o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996, neu i gael cymorth tai o dan Atodlen 2 i Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Bydd y diwygiadau arfaethedig yn creu dosbarthiadau newydd o bobl gymwys. Mae'r rhain yn cynnwys unigolion sydd:

- yn byw yn Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza neu Ddwyrain Jerwsalem cyn 23 Mehefin 2025;
- wedi gadael mewn cysylltiad â'r gwrthdaro rhwng Israel ac Iran a waethygodd ym mis Mehefin 2025;
- wedi gwneud cais am gymorth tai neu ddigartrefedd o fewn 26 wythnos o naill ai:
    - ddyddiad gwacáu o dan drefniadau a wnaed gan Lywodraeth Ei Fawrhydi, neu
    - y dyddiad y cyhoeddodd y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu wahoddiad i gofrestru ar gyfer cymorth ymadael;
- yn bodloni'r amodau eraill a nodir yn y rheoliadau (e.e. statws mewnfudo, dim amod NRPF, heb fod yn ddarostyngedig i ymrwymiadau nawdd).

Mae'r diwygiadau yn berthnasol i bersonau sy'n ddarostyngedig i reolaeth mewnfudo (Rheoliadau 3 a 5) a'r rhai nad ydynt (Rheoliadau 4 a 6).

Mae'r cynnig hwn yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau cydraddoldeb mynediad at dai a gwasanaethau digartrefedd i'r rhai yr effeithir arnynt gan argyfyngau rhyngwladol. Mae hefyd yn cefnogi amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei hymrwymiad i roi terfyn ar ddigartrefedd a hyrwyddo Cymru fel cenedl noddfa.

## Casgliad

## (Sylwer y bydd yr adran hon yn cael ei chyhoeddi)

**Sut y mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

Gan fod y newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y cynnig yn deillio o bolisi a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU (mewnfudo a lles), ni fyddai'n bosibl cynnal ymgynghoriad ystyrlon ar ddulliau gweithredu amgen, gan mai effaith y cynnig yw cysoni cyfraith tai Cymru a chyfraith mewnfudo a lles.

**Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

**Effeithiau cadarnhaol**

Bydd ymestyn cymhwysedd am gymorth tai a thai i unigolion a adawodd Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza neu Ddwyrain Jerwsalem mewn cysylltiad â gwrthdaro Mehefin 2025 yn helpu i'w hamddiffyn rhag y risg o ddigartrefedd a'r niwed cysylltiedig. Bydd y cynnig yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddangos ei dyheadau o ran bod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang a'i hymrwymiad i hawliau dynol ac i hyrwyddo heddwch.

**Effeithiau negyddol**

Ni fydd y cynnig hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol hirdymor. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau bod anghenion y grŵp bach hwn o bobl yn cael eu diwallu ochr yn ochr â phobl sydd eisoes mewn llety dros dro neu'n chwilio am gartrefi fforddiadwy.

**Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau, neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Cartrefi o ansawdd da yw conglfaen cymunedau bywiog a chydlynus ac maent yn darparu sylfaen i unigolion ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywydau. Bydd cael tai diogel a

fforddiadwy yn sicrhau bod unigolion sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu a'u bod yn fwy abl i ffynnu yng Nghymru.

Bydd y newidiadau arfaethedig yn sicrhau y gall unigolion yr effeithir arnynt gan y gwrthdaro gael mynediad at dai diogel, fforddiadwy, gan eu galluogi i ymgartrefu a chyfrannu at gymdeithas Cymru. Mae hyn yn cefnogi'r nodau llesiant o Gymru fwy cyfartal, Cymru iachach, a Chymru o gymunedau cydlynol.

**Sut fydd effaith y cynnig yn cael ei fonitro a'i werthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Bydd y Rheoliadau diwygiedig yn cael eu hadolygu yn y ffordd arferol. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn monitro unrhyw effeithiau a adroddwyd gan awdurdodau lleol neu sefydliadau'r Trydydd Sector sy'n cefnogi unigolion yr effeithir arnynt gan y gwrthdaro. Bydd unrhyw addasiadau angenrheidiol yn cael eu hystyried yng ngoleuni datblygiadau pellach neu gynlluniau gwacáu Llywodraeth y DU yn y dyfodol.

## Datganiad

Rwy'n fodlon bod effaith y camau gweithredu arfaethedig wedi cael eu hasesu a’u cofnodi’n ddigonol.

Enw’r Uwch-swyddog Cyfrifol / y Dirprwy Gyfarwyddwr: Sarah Rhodes

Adran: Y Gyfarwyddiaeth Tai ac Adfywio

Dyddiad:  10 Gorffennaf 2025